

## **Mynydd y Gwair Wind Farm Community Liaison Group**

### **Draft Terms of Reference**

#### **1. Role of the Liaison Group**

1.1 The group will be known as the Mynydd y Gwair Wind Farm Community Liaison Group (hereafter referred to as the CLG).

1.2 The aim of the CLG is to provide a forum for the exchange of information relating to the construction of Mynydd y Gwair wind farm.

1.3 The CLG will formally begin two months prior to the start of construction, and will remain active throughout the construction phase of the project.

1.4 The CLG will operate as a forum for the exchange of information and maintenance of channels of communication between representatives of innogy, the local community and their elected representatives.

1.5 Questions can be submitted by the public in advance of a CLG meeting and will be addressed at the next meeting, or at a suitable subsequent meeting (for example, where a detailed technical response is required).

#### **2. Group Membership**

2.1 Representative/s of the developer (Innogy Renewables UK Ltd or 'innogy') will organise and attend each meeting. In addition, the following groups and agencies serving the City and County of Swansea are invited to be foundation members of the CLG, and to send a representative to meetings (and to nominate a substitute in the event that the primary representative is unable to attend):

- Mawr Community Council
- Pontarddulais Town and Council
- Penllergaer Community Council
- Pontlliw and Tircoed Community Council
- South Wales Police
- Local Authority Mynydd y Gwair (MyG) wind farm Monitoring Officer
- Local Authority Highways
- West Glamorgan Commoners' Association
- Innogy construction contractors

2.2 From time to time, additional community group representatives can be identified by existing members and invited to attend the CLG.

2.3 Should any member of the CLG step down, a replacement member may be nominated and agreed with the existing membership.

#### **3. Role of Chair**

3.1 An independent person will chair the CLG. The Chair is responsible for the orderly and timely running

of meetings, adherence to the agenda and enforcement of the CLG's terms of reference, and code of conduct.

3.2 In the event that the Chair is unable to attend meetings, the communications company providing the secretariat for the CLG will substitute.

#### **4. Welsh Language**

4.1 The meetings will be conducted bilingually, and all agendas and minutes relating to CLG meetings will be published in Welsh and English.

4.2 To facilitate this a simultaneous translator will be present at each meeting.

#### **5. innogy's Commitments**

5.1 innogy will administer the meetings and meet all related costs, such as venue hire and translation.

5.2 Minutes shall be kept as a record of the meetings and these will be agreed at the following meeting.

5.3 innogy will provide relevant, project specific speakers to answer questions relating to the construction of Mynydd y Gwair wind farm.

5.4 innogy shall undertake a risk assessment in advance of each meeting and take measures to mitigate against risks, including any potential security risks.

#### **6. CLG Member Commitments**

6.1 CLG members will make representations on behalf of the communities they represent.

6.2 CLG members will disseminate responses and outcomes of meetings back to their communities.

6.3 CLG members will work with innogy to identify key topics of interest to the local community that might be the subject of 'themed' CLG meetings or additional workshops.

6.4 CLG members shall adhere to the Code of Conduct at all times.

#### **7. Meeting Arrangements**

7.1 The frequency of meetings will be agreed among the membership in response to the progress of development and the level of activity.

7.2 In general, the meetings are working meetings for the exchange of information, and as such they will not be open to the public. If there is a reason to invite members of the public, this should be agreed by group members in advance of the next meeting.

The first meeting of the Mynydd y Gwair Wind Farm Community Liaison Group will take place on Tuesday 8<sup>th</sup> November at 6 pm at Tircoed Village Hall.

## **Grŵp Cyswllt Cymunedol Fferm Wynt Mynydd y Gwair**

### **Cylch Gorchwyl Drafft**

#### **1. Rôl y Grŵp Cyswllt**

1.1 Bydd y grŵp yn cael ei adnabod Grŵp Cyswllt Cymunedol Fferm Wynt Mynydd y Gwair (y GCC o hyn ymlaen).

1.2 Nod y GCC yw gweithredu fel fforwm i gyfnewid gwybodaeth sy'n gysylltiedig ag adeiladu fferm wynt Mynydd y Gwair.

1.3 Bydd y GCC yn dechrau cwrdd yn ffurfiol ddeufis cyn dechrau'r gwaith adeiladu, a bydd yn weithredol trwy gydol cyfnod adeiladu'r prosiect.

1.4 Bydd y GCC yn gweithredu fel fforwm i gyfnewid gwybodaeth ac i gynnal sianelau cyfathrebu rhwng cynrychiolwyr innogy, y gymuned leol ac aelodau etholedig.

1.5 Gall y cyhoedd gyflwyno cwestiynau cyn cyfarfod o'r GCC a chânt eu trafod yn y cyfarfod nesaf, neu mewn cyfarfod addas wedi hynny (er enghraifft, os bydd angen ymateb technegol manwl).

#### **2. Aelodau'r Grŵp**

2.1 Bydd cynrychiolydd / cynrychiolwyr y datblygwr (Innogy Renewables UK Ltd neu 'innogy') yn trefnu a bydd yn bresennol ym mhob cyfarfod. Hefyd, gwahoddir y grwpiau a'r asiantaethau canlynol sy'n gwasanaethu Dinas a Sir Abertawe i fod yn aelodau sylfaen o'r GCC, ac i anfon cynrychiolydd i gyfarfodydd (ac i enwebu rhywun yn eu lle os na fydd y prif gynrychiolydd yn gallu bod yn bresennol):

- Cyngor Cymuned Mawr
- Cyngor Tref a Chymuned Pontarddulais
- Cyngor Cymuned Penllergaer
- Cyngor Cymuned Pontlliw a Thircoed
- Heddlu De Cymru
- Swyddog Monitro fferm wynt Mynydd y Gwair (MyG) yr Awdurdod Lleol
- Adran Briffyrdd yr Awdurdod Lleol
- Cymdeithas Cominwyr Gorllewin Morgannwg
- Contractwyr adeiladu innogy

2.2 O bryd i'w gilydd, gall aelodau dynnu sylw at gynrychiolwyr grwpiau cymunedol ychwanegol a gellir eu gwahodd i gyfarfodydd y GCC.

2.3 Os bydd unrhyw aelod o'r GCC yn ymddiswyddo, gellir enwebu aelod yn ei le, gyda chytundeb yr aelodaeth bresennol.

#### **3. Rôl y Cadeirydd**

3.1 Bydd unigolyn annibynnol yn cadeirio'r GCC. Mae'r Cadeirydd yn gyfrifol am sicrhau bod y cyfarfodydd yn cael eu cynnal mewn ffordd drefnus a phrydlon, yn glynu wrth yr agenda ac am orfodi cylch gorchwyl y GCC, a'r cod ymddygiad.

3.2 Os na fydd y Cadeirydd yn gallu bod yn bresennol mewn cyfarfod, bydd y cwmni cyfathrebu sy'n darparu'r ysgrifenyddiaeth i'r GCC yn cymryd ei le.

#### **4. Yr Iaith Gymraeg**

4.1 Bydd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn ddwyieithog, a bydd yr holl agendâu a'r cofnodion sy'n gysylltiedig â chyfarfodydd y GCC yn cael eu cyhoeddi'n Gymraeg a Saesneg.

4.2 I hwyluso hyn, bydd cyfieithydd ar y pryd yn bresennol ym mhob cyfarfod.

#### **5. Ymrwymiadau innogy**

5.1 Bydd innogy yn gweinyddu'r cyfarfodydd ac yn talu'r holl gostau cysylltiedig, fel hurio'r lleoliad a chyfieithu ar y pryd.

5.2 Bydd cofnodion yn cael eu cadw fel cofnod o'r cyfarfodydd a chytunir eu bod yn gofnod cywir yn y cyfarfod dilynol.

5.3 Bydd innogy yn trefnu siaradwyr perthnasol, sy'n benodol i'r prosiect i ateb cwestiynau'n gysylltiedig ag adeiladu fferm wynt Mynydd y Gwair.

5.4 Bydd innogy yn cynnal asesiad risg cyn pob cyfarfod ac yn cymryd mesurau i liniaru risgiau, gan gynnwys unrhyw risgiau diogelwch posibl.

#### **6. Ymrwymiadau Aelodau'r GCC**

6.1 Bydd aelodau'r GCC yn gwneud sylwadau ar ran y cymunedau maent yn eu cynrychioli.

6.2 Bydd aelodau'r GCC yn lledaenu ymatebion a chanlyniadau cyfarfodydd ymhlith eu cymunedau.

6.3 Bydd aelodau'r GCC yn gweithio ag innogy i ganfod pynciau sydd o ddi-ddordeb i'r gymuned leol a all fod yn destun cyfarfodydd 'thematig' o'r GCC neu weithdai ychwanegol.

6.4 Bydd aelodau'r GCC yn glynu wrth y Cod Ymddygiad bob amser.

#### **7. Trefniadau'r Cyfarfodydd**

7.1 Bydd yr aelodau'n cytuno ar ba mor aml y dylai cyfarfodydd gael eu cynnal mewn ymateb i gynnydd y datblygiad a lefel y gweithgarwch.

7.2 Ar y cyfan, mae'r cyfarfodydd yn gyfarfodydd gweithio i gyfnewid gwybodaeth, ac felly ni fyddant yn agored i'r cyhoedd. Os oes rheswm dros wahodd y cyhoedd, dylai aelodau'r grŵp gytuno ar hynny cyn y cyfarfod nesaf.

Bydd cyfarfod cyntaf Grŵp Cyswllt Cymunedol Fferm Wynt Mynydd y Gwair yn cael ei gynnal nos Fawrth 8 Tachwedd am 6 pm yn Neuadd Bentref Tircoed.